



Polisi Gwrthdrawiad Buddiannau

Mae'r polisi hwn yn nodi ymagwedd y Comisiynydd tuag at reoli gwrthdrawiad buddiannau go iawn a rhai a allai ddigwydd.

Beth yw Gwrthdrawiad Buddiannau?

Mae gwrthdrawiad buddiannau'n digwydd pan fydd buddiannau'r Comisiynydd neu'r rhai sy'n gweithio ar ei rhan yn cael eu canfod fel rhai sy'n gwrthdaro, neu y gellid eu canfod fel rhai sy'n gwrthdaro â buddiannau'r sefydliad.

Engreifftiau o wrthdrawiad buddiannau

- Defnyddio eich statws i ennill budd ariannol uniongyrchol neu anuniongyrchol.
- Caffael gwasanaethau oddi wrth gwmnïau neu unigolion pan fydd rhyw fath o ddiddordeb anariannol neu bersonol neu berthynas rhyngoch â hwynt.
- Teyrngarwch cystadleuol – lle mae eich dyletswyddau i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodolyn gwrthdaro, neu lle gallai wrthdaro â dyletswydd i berson neu sefydliad arall.
- Derbyn rhoddion neu letygarwch – derbyn rhoddion neu letygarwch sy'n creu canfyddiad o benderfyniad unochrog, hyd yn oed os nad oes gan y rhodd unrhyw berthynas â'r dyfarniad.

Y weithdrefn ar gyfer ymdrin â gwrthdrawiad buddiannau

Mae'n ofynnol i bob un sy'n gweithio ar ran y Comisiynydd gwblhau Ffurflen Buddiannau Cofrestredig pan fyddant yn ymuno â'r sefydliad. Bydd unrhyw wrthdaro neu wrthdaro posibl yn cael eu hystyried gan Gyfarwyddwr Cyllid a Llywodraethu Corfforaethol ar adeg y penodiad ac wedyn argymhellir camau gweithredu i'r Comisiynydd.

Os yr ydych yn ansicr am beth i'w ddatgan, gwell sicrhau nad ydych yn cyfeiliorni drwy gymryd gofal a thrafod y mater gyda'r Gyfarwyddwr Cyllid a Llywodraethu Corfforaethol am arweiniad cyfrinachol.

Os bydd gennych ar unrhyw adeg yn dilyn eich penodiad wrthdrawiad buddiannau, diweddarwch y Ffurflen Buddiannau Cofrestredig.

Rheoli Gwrthdrawiad Buddiannau

Mae gwrthdrawiad buddiannau'n gyffredin ac anochel. Rydyn ni'n cydnabod pwysigrwydd cynnal ac adeiladu rhwydweithiau effeithiol, cydweithredu a phartneriaethau wrth i ni ymgorffori Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ein trefniadau gwaith. Nid yw'n rhesymol i ddileu yn gyfangwbl risgiau'r fath wrthdaro. Bydd mesurau yn cael eu gosod yn eu lle i reoli gwrthdrawiad buddiannau pan fyddant yn codi. Mewn rhai achosion, gall y bydd gwrthdrawiad parhaus effeithio mor aml neu i'r fath raddau ar eich gallu i gyfranogi mewn

penderfyniadau, fel ei bod yn anymarferol i chi barhau yn eich swydd, ond cymerir pob cam rhesymol i ddarganfod datrysiad fel y gellir osgoi'r fath weithred. Polisi Gwrthdrawiad Buddiannau Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

Caffael Nwyddau a Gwasanaethau

Mae'n rhaid i chi fod yn rhydd o bob buddiant personol a allai wrthdaro, neu sy'n ymddangos fel petaent yn gwrthdaro â buddiannau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Os oes gennych fusnes neu berthynas arall â sefydliadau allanol rhaid i'r rhain gael eu datgan ac mae'n rhaid i chi beidio cymryd rhan mewn unrhyw ymarfer caffael y maent yn rhan ohono.

Teyrnged Gystadleuol – Dylanwad gwleidyddol a chyfranogiad mewn gweithgareddau allanol a gwleidyddol

Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn gweithredu fel sefydliad sy'n annibynnol o'r Llywodraeth ac yn wleidyddol niwtral. Mae'n hanfodol bod y cyhoedd yn teimlo'n hyderus nad yw barn bersonol yn effeithio ar weithrediad dyletswyddau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

Ein bwriad yw caniatáu i'r rhai sy'n gweithio i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol y rhyddid mwyaf posibl i gyfranogi mewn materion cyhoeddus heb dorri'r egwyddor sylfaenol hon.

Bydd rhai cyfyngiadau angenrheidiol ar weithgareddau yn ôl disgrisiwn y Comisiynydd fel bod amhleidioldeb y sefydliad tu hwnt i bob amheuaeth.

Ni ddylech gymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau allanol na gwleidyddol heb wneud cais am asesiad.

Bydd ceisiadau i gyfranogi'n weithredol yn cael eu hasesu fesul achos gan aelod perthnasol o'r Tîm Uwch-reoli ac argymhellid yn cael ei wneud i'r Comisiynydd gan ddefnyddio'r canlynol fel canllaw:

- Ystyried a yw ymgysylltu yn y gwaith hwn/y rôl hon yn cyflwyno unrhyw wrthdrawiad buddiannau go iawn neu rai a ganfyddir.
- Niwtraliaeth wleidyddol – Pa gyfyngiadau, os oes rhai, a fyddai hyn yn gosod ar allu'r unigolyn i gyflawni cylch gwaith ei rôl? Pa fesurau sydd eu hangen i sicrhau gwahaniaethu rhwng yr hyn a allai'r aelod o'r staff ei ddweud neu ei wneud yn eu rôl mewn bywyd cyhoeddus yn erbyn ei rôl gyda'r Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol?
- Os felly, sut ellir rheoli'r rhain i osgoi niwed i enw da'r sefydliad a'r posibilrwydd o danseilio hyder y cyhoedd yn integriti'r Sefydliad? (Er enghraifft a allai portffolio gwaith unigolyn gael ei ad-drefnu? Os gall, a yw hyn yn ymarferol ac yn hawdd i'r Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ei reoli, sut fyddwn ni'n ymgorffori ymrwymadau amser i mewn i'r rhaglen waith?)

Rhoddion a lletygarwch

Mae Cynorthwydd Gweithredol y Comisiynydd yn cadw cofrestr o bob rhodd a lletygarwch a gynigir ac a

dderbynnir p'un a gânt eu derbyn ai peidio yng nghwrs dyletswyddau swyddogol.

Bydd Cyfarwyddwr Cyllid a Llywodraethu Corfforaethol yn gyfrifol am roi adroddiad ar y gofrestr i'r Pwyllgor Archwilio unwaith y flwyddyn er mwyn hwyluso adolygiad cyson o'r polisi. Gallai'r gofrestr gael ei datgelu hefyd o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Polisi Gwrthdrawiad Buddiannau Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol .

Diffinnir 'rhodd' yn y fan hon fel eitem, arian neu nwyddau, neu unrhyw wasanaeth a gynigir er budd personol am gost, neu heb gost, sy'n llai na'i werth masnachol.

Diffinnir 'Lletygarwch' yn y fan hon fel unrhyw groeso hael neu faterol neu dderbyniad sy'n fwy nag achlysurol ei natur, megis diod neu luniaeth ysgafn. Yn gyffredinol mae'n dderbyniol i dderbyn lluniaeth ysgafn, neu ginio ysgafn (e.e. ar ymweliad â safle) neu ginio neu bryd gyda'r hwyr pan yn mynychu neu'n siarad mewn cynhadledd.

Cyfrifoldeb pob unigolyn yw cofnodi yn y gofrestr unrhyw roddion neu letygarwch a dderbyniwyd neu a gynigiwyd ac nas derbyniwyd. Yn fyr, dylech: ystyried yn ofalus a yw'n addas i dderbyn rhodd neu letygarwch; gwrthod rhoddion neu letygarwch oni bai y byddai gwneud hynny'n achosi embaras difrifol; a thrafod y sefyllfa gyda'ch rheolwr llinell neu Gyfarwyddwr Cyllid a Llywodraethu Corfforaethol os caiff y rhodd ei derbyn a'i bod yn amlwg yn werth mwy na £20. Os cewch eich gwahodd i dderbyniad fel partner neu briod, yna dylai hyn ddal i gael ei ddatgelu yn yr un modd. Mewn effaith, byddai'r rheolau'n berthnasol yn yr un modd ag aelod o staff yn mynychu digwyddiad yn eu rhinwedd eu hunan.

Rydyn ni'n annog staff i roi unrhyw roddion i Raffl Cinio Nadolig y Staff. Os yr ydych yn dymuno rhoi rhodd, os gwelwch yn dda cysylltwch â'r Cyfarwyddwr Cyllid a Llywodraethu Corfforaethol.